

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 a Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Cadw, is-adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 a Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Dawn Bowden AS

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

07 Hydref 2021

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer sefydlu cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yng Nghymru. Gall y cytundebau gwirfoddol hyn fod rhwng perchennog adeilad rhestredig a naill ai'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru (yn ymarferol, Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru), neu rhwng perchennog heneb gofrestrdig a Gweinidogion Cymru. Yn y naill achos neu'r llall, efallai hefyd y bydd partiön ychwanegol i gytundeb partneriaeth treftadaeth gyda gwybodaeth arbennig, neu ddiddordeb yn yr adeilad rhestredig neu'r heneb gofrestrdig.

Mae'r Rheoliadau'n rhoi manylion am:

- y telerau mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth
- y gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd ar gytundebau partneriaeth treftadaeth drafft ac amrywiadau drafft
- y gweithdrefnau y mae'n rhaid i awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru (yn achos cytundeb sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig), neu Weinidogion Cymru (yn achos cytundeb sy'n ymwneud â heneb gofrestrdig), eu dilyn i derfynu cytundeb drwy orchymyn.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cymhwyso, datgymhwyso ac atgynhyrchu rhai adrannau o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ("Deddf 1979") a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990"), fel y bo'n briodol, at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae adran 9ZB(3) a (7) o Ddeddf 1979 ac adran 26M(3), (4) a (5) a 93(6A) o Ddeddf 1990 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chytundebau partneriaeth dreftadaeth.

Mae'r Deddfau'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar y canlynol:

- i. yr ymgynghoriad sy'n rhaid ei gynnal cyn gwneud neu amrywio cytundeb partneriaeth dreftadaeth;
- ii. y cyhoeddusrwydd sy'n rhaid ei roi i gytundeb partneriaeth dreftadaeth cyn neu ar ôl ei wneud neu ei amrywio;
- iii. pennu telerau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth; a

- iv. galluogi awdurdodau lleol (lle y bo'n briodol) neu Weinidogion Cymru (yn achos cytundeb sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig), neu Weinidogion Cymru (yn achos cytundeb sy'n ymwneud â heneb gofrestredig), i derfynu drwy orchymyn gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath.

Mae'r Deddfau hefyd yn darparu hefyd ar gyfer rheoliadau cymhwys, datgymhwys neu atgynhyrchu adrannau penodol o Ddeddfau 1979 a 1990 at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Roedd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wedi diwygio Deddf 1979 a Deddf 1990 er mwyn cyflwyno darpariaethau i lunio cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Mae adrannau 9ZA a 9ZB o Ddeddf 1979 ac adrannau 26L a 26M o Ddeddf 1990 yn egluro'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth, gyda'r Rheoliadau'n egluro rhai o'r gofynion gweithdrefnol.

Mae cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn drefniant gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau hanesyddol dynodedig yn yr hirdymor. Fe'i trafodir rhwng perchennog yr ased(au), yr awdurdod cydsynio perthnasol neu'r awdurdodau ac unrhyw bartion eraill â diddordeb. Gall ymgorffori caniatâd adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig, fel bo'r angen, i raglen waith y cytunwyd arni gael ei chynnal yn ystod oes y cytundeb partneriaeth dreftadaeth, a all bara cyhyd â 10 i 15 mlynedd. Gall hefyd nodi'r hyn y mae angen caniatâd arno ac nad oes angen caniatâd arno yng nghyd-destun cynllun rheoli cadwraeth cyffredinol. Hefyd, gall y cytundeb gynnwys gwaith cynnal a chadw, a threfniadau sy'n gysylltiedig â mynediad i'r cyhoedd lle bo'n briodol.

Mae cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cefnogi'r gwaith buddiol, hirdymor o reoli asedau hanesyddol drwy nodi amcanion cadwraeth y cytunwyd arnynt, nodi'r camau sydd angen eu cymryd i'w cyflawni mewn rhaglen waith wedi'i chynllunio a darparu'r caniatâd angenrheidiol. Mae cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn darparu'r sail ar gyfer dull cynhwysfawr a chyson o reoli henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, boed wedi'u lleoli gyda'i gilydd ar un ystad neu wedi'u gwasgaru ar draws un neu fwy o ardaloedd awdurdodau lleol.

Mae Adran 9ZB(3) o Ddeddf 1979 a 26M(3) o Ddeddf 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach ynghylch rhai agweddau ar gynnwys cytundebau partneriaeth dreftadaeth gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i gytundebau, ymgynghori arnynt a'u terfynu.

Materion sy'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth
Nid oes proses ymgeisio ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth gan ei bod yn bartneriaeth a negodir. Mae'r Rheoliadau'n ategu'r gofynion yn Deddf 1979 a

Deddf 1990 ynghylch yr hyn y gall cytundeb partneriaeth dreftadaeth ei gynnwys. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gytundebau partneriaeth treftadaeth gynnwys, yn benodol, digon o wybodaeth i adnabod yr ased hanesyddol a hyd y cytundeb.

Datblygwyd canllawiau sy'n cynnwys cyngor manwl ar sut i ddatblygu cytundeb, gan gynnwys templed ar gyfer cytundebau o'r fath.

Ymgynghori a chyhoeddusrwydd

Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o gytundebau partneriaeth treftadaeth yn para am ddegawd neu fwy. Mae'r Rheoliadau'n nodi trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd penodol. Y nod yw sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng darparu digon o atebolrwydd a thryloywder ar gyfer y cytundebau pellgyrhaeddol hyn a chadw digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer amrywiaeth yr asedau a'r amgylchiadau y gellir eu cynnwys ynddynt.

Mae'r gofynion ymgynghori yn y Rheoliadau'n deillio o fecanweithiau presennol ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig a heneb gofrestredig.

Cytundebau partneriaeth dreftadaeth adeilad rhestredig

Unwaith y bydd y partïon i gytundeb partneriaeth dreftadaeth wedi negodi cytundeb drafft neu amrywiad, rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol dan sylw gynnal ymgynghoriad ffurfiol. Rhaid anfon y cytundeb neu'r amrywiad drafft at Weinidogion Cymru a dylid rhoi o leiaf 21 diwrnod iddyn nhw ystyried y dogfennau a dychwelyd sylwadau.

Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad hefyd i feddianwyr a pherchnogion hirdymor nad ydynt yn rhan o'r cytundeb ac i unrhyw un arall a allai ymddangos fel pe bai ganddynt wybodaeth arbennig am yr adeiladau penodol dan sylw neu ddiddordeb ynddynt, neu mewn adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol yn fwy cyffredinol. Rhaid rhoi hysbysiad ar ei wefan a'i arddangos ar yr adeilad neu'r adeiladau rhestredig neu'n gymharol agos ato/atynt. Rhaid i fersiwn ddrafft o'r cytundeb neu'r amrywiad fod ar gael i'r cyhoedd. Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ddarparu o leiaf 21 diwrnod i unrhyw sylwadau ar y cytundeb drafft gael eu gwneud.

Cytundebau partneriaeth dreftadaeth heneb gofrestredig

Gan mai Cadw yw'r awdurdod cydsynio ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig, mae'n gyfrifol hefyd am yr ymgynghoriad a'r cyhoeddusrwydd cyn gwneud cytundeb partneriaeth dreftadaeth heneb gofrestredig, neu cyn amrywio hyd cytundeb neu gymhwyso'r cytundeb i henebion ychwanegol. Rhaid i Cadw ymgynghori â'r perchennog, unrhyw feddiannydd, unrhyw awdurdod lleol neu awdurdod parc cenedlaethol y lleolir yr heneb neu'r tir cofrestredig yn ei ardal, ac unrhyw awdurdod lleol neu awdurdod parc cenedlaethol sy'n warcheidwad i'r heneb neu'r tir cofrestredig. Rhaid i Cadw anfon copi cyflawn o'r ddogfen ddrafft at bob un ohonynt a chaniatáu o leiaf 21 diwrnod iddynt gyflwyno sylwadau.

Hefyd, rhaid i Cadw gyhoeddi hysbysiad ar ei wefan am o leiaf 21 diwrnod a rhoi'r hysbysiad i unrhyw un nad yw'n rhan o'r cytundeb a allai fod â buddiant

yn y cytundeb neu'r amrywiad drafft. Gall hyn gynnwys Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru a'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol. Eto, rhaid caniatáu o leiaf 21 diwrnod iddynt gyflwyno sylwadau.

Gofyniad i gyhoeddi rhestr o gytundebau partneriaethau treftadaeth

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i restr o gytundebau partneriaeth dreftadaeth cyfredol adeilad rhestredig (gan gynnwys unrhyw amrywiadau) gael ei chyhoeddi ar wefan awdurdod cynllunio lleol. Yn yr un modd, rhaid i Cadw gyhoeddi rhestr o gytundebau partneriaeth dreftadaeth henebion cofrestredig ar ei wefan.

Terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy Orchymyn

Gellir terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth:

- oherwydd newid mewn perchnogaeth
- o dan delerau'r cytundeb
- drwy orchymyn awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau'n egluro'r weithdrefn i'w dilyn os yw'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru o'r farn bod angen terfynu'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy Orchymyn. Rhagwelir mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd terfynu drwy orchymyn yn digwydd, y tu allan i'r rhai a bennir yn y cytundeb partneriaeth dreftadaeth a'i drefniadau ar gyfer terfynu. Gall sefyllfa o'r fath godi, er enghraifft, pan wneir darganfyddiadau sylweddol ar ôl cloddio, gan olygu bod angen tynnu caniatâd neu roi'r gorau i waith yn erbyn dymuniadau'r perchennog.

Gellir terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth adeilad rhestredig, neu ran ohono, drwy orchymyn naill ai gan awdurdod cynllunio lleol sy'n rhan o'r cytundeb neu gan Weinidogion Cymru. Mae adrannau 23, 24 a 26 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, sy'n ymwneud â dirymu ac addasu caniatâd adeilad rhestredig drwy orchymyn, wedi darparu'r fframwaith ar gyfer y broses.

Dim ond Gweinidogion Cymru a gaiff derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth heneb gofrestrredig, neu unrhyw ran o gytundeb, drwy orchymyn. Mae'r broses yn deillio o'r darpariaethau yn Neddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ar gyfer dirymu caniatâd heneb gofrestrredig drwy gyfarwyddyd.

Efallai y bydd person sydd â buddiant mewn adeilad yr effeithir arno gan orchymyn terfynu a wneir gan awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru yn gallu hawlio iawndal os yw'r gorchymyn yn gwneud y gwaith yn ofer neu fel arall yn achosi colled neu ddifrod.

5. Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 18 Ionawr 2021 a 12 Ebrill 2021 ar y Rheoliadau drafft.¹ Paratowyd canllawiau hefyd ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth sy'n nodi sut i baratoi'r cytundebau. Mae'n esbonio gofynion statudol y cytundeb yn ogystal ag ehangu ar hyn i gynnwys meysydd sy'n arfer da i'w gweithredu. Mae'n rhoi cyngor ar rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n gysylltiedig. Roedd y canllawiau hyn hefyd yn rhan o'r ymgynghoriad a ddygwyd i sylw cynulleidfau eang o randdeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, rhai â diddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol a grwpiau gwirfoddol, a chyrrff proffesiynol a llywodraeth cysylltiedig eraill.

Cafwyd 22 o ymatebion, ac ar y cyfan, roedden nhw'n gadarnhaol o ran cyflwyno rheoliadau cytundeb partneriaeth dreftadaeth a'r canllawiau cysylltiedig. Ers hynny, mae rhai diwygiadau wedi'u gwneud i'r Rheoliadau er mwyn:

- caniatáu mwy o hyblygrwydd ynghylch hyd cytundebau
- lleihau'r baich gweinyddol i awdurdodau lleol wrth hysbysu perchnogion a meddianwyr nad ydynt yn rhan o gytundeb
- egluro rôl yr Uwch Dribiwnlys mewn hawliadau iawndal wrth derfynu cytundeb.

Gwnaed newidiadau drafftio hefyd. Mae'r canllawiau wedi'u diwygio i egluro cynnwys cytundeb partneriaeth dreftadaeth a phrosesau cysylltiedig lle mae ymatebwyr wedi nodi bylchau yn y wybodaeth neu wedi gofyn iddi gael ei hehangu.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

Mae Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ('Deddf 1979') a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ('Deddf 1990') yn darparu'r fframwaith statudol sylfaenol ar gyfer dynodi, diogelu a rheoli henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig yng Nghymru. O dan ddarpariaethau'r Deddfau hyn, mae gwaith awdurdodedig ar asedau hanesyddol dynodedig yn cael ei reoleiddio trwy ganiatâd ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r caniatâd yn nodi'r gwaith a ganiateir ac mae'n bosibl y bydd amodau penodol yn berthnasol iddo.

Roedd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wedi diwygio Deddf 1979 a Deddf 1990 er mwyn cyflwyno darpariaethau i wneud cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

Cytundebau gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau hanesyddol dynodedig yn y tymor canolig i'r hirdymor yw cytundebau partneriaeth

¹ Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth, Crynodeb o Ymatebion yr Ymgynghoriad: [Cytundebau partneriaeth dreftadaeth: rheoliadau a chanllawiau | LLYW.CYMRU](#)

dreftadaeth. Bydd y cytundebau statudol hyn yn gallu ymgorffori caniatâd ar gyfer henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, gan awdurdodi gwaith sydd wedi'i nodi a'i gytuno gan y partiön i'r cytundeb. Bydd caniatâd o'r fath yn ddefnyddiol iawn ar gyfer gwaith rheolaidd sydd angen ei wneud i warchod a rheoli asedau hanesyddol lluosog a fyddai fel arall wedi bod yn destun ceisiadau niferus ac ailadroddus i raddau helaeth. Hefyd, bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn annog dulliau rheoli henebion ac adeiladau mwy cyson a chydlynol.

Er mwyn bod yn effeithiol, bydd angen i gytundebau fod yn hyblyg er mwyn gallu darparu nid yn unig ar gyfer mathau gwahanol o safleoedd a gofynion cadwraeth, ond hefyd ar gyfer cyfuniadau gwahanol o berchnogaeth, rheolaeth a chyfranogiad ehangach gan y gymuned. O dan amgylchiadau priodol, bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn dod â manteision i berchnogion ac awdurdodau sy'n rhoi caniatâd, ond ni fyddant yn cynnig llawer o fanteision, os o gwbl, i'r rhan fwyaf o berchnogion henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig sydd ond yn ymgymryd â gwaith y mae angen caniatâd ar ei gyfer yn achlysurol. O ganlyniad, go brin y bydd mwy na 10 cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cael eu gwneud yng Nghymru mewn unrhyw un flwyddyn.²

Mae'r ddeddfwriaeth alluogi yn Neddf 2016 yn gosod fframwaith ar gyfer gwneud cynllun partneriaeth dreftadaeth (CPD). Hefyd, mae'n nodi bod angen gwneud rheoliadau ar gyfer y canlynol:

- yr ymgynghoriad y mae'n rhaid ei gynnal cyn gwneud neu amrywio CPD;
- y cyhoeddusrwydd y mae'n rhaid ei roi cyn gwneud neu amrywio CPD;
- y cyfnodau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn CPD; a
- therfynu CPD drwy orchymyn Gweinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio lleol.

Mae pedwar opsiwn wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer y rheoliadau.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r cyfundrefnau caniatâd presennol heb lunio rheoliadau.

Opsiwn 2 - Gwneud rheoliadau sy'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru wrth benderfynu ar yr ymgynghoriad a'r cyhoeddusrwydd, y cyfnodau a'r gweithdrefnau terfynu sy'n ofynnol ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth.

Opsiwn 3 — Gwneud rheoliadau sy'n gosod gofynion rhagnodol ar awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru ar gyfer yr ymgynghoriad a'r cyhoeddusrwydd, y cyfnodau a'r gweithdrefnau terfynu sy'n ofynnol ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth.

² Nid yw Historic England wedi sefydlu mwy na chwe chytundeb partneriaeth treftadaeth ers eu cyflwyno yn Lloegr yn 2013: [New Heritage Partnership Agreement Signed at King's Cross Station | Historic England](#)

Opsiwn 4 - Cyfuno elfennau o opsiynau 2 a 3 i wneud rheoliadau sy'n pennu gofynion sylfaenol ar gyfer ymgynghori a chyhoeddusrwydd, yn caniatáu hyblygrwydd o safbwynt cyfnodau cytundeb partneriaeth dreftadaeth, ac yn nodi gweithdrefnau clir ar gyfer terfynu cytundeb drwy orchymyn Gweinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio lleol.

O safbwynt opsiynau 2, 3 a 4, byddai angen setiau o reoliadau ar wahân ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn ymwneud ag adeilad rhestredig a chytundebau partneriaeth dreftadaeth yn ymwneud â heneb gofrestredig gan eu bod yn deillio o riant-ddeddfau penodol. Er y byddai elfennau sylfaenol y rheoliadau'n debyg, mae'n bosibl y byddai eu manylion yn amrywio naill ai i adlewyrchu agweddau ar y riant-ddeddf neu natur debygol y cytundebau partneriaeth dreftadaeth perthnasol.

Roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol a baratowyd ar gyfer Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn cynnwys asesiad o'r dewisiadau ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth a'u costau a'u buddion.³ Felly, mae'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn asesu'r dewisiadau ar gyfer y rheoliadau a'u costau a'u buddion cyfyngedig yn unig.

Opsiwn 1 - Gwneud dim a pharhau â'r cyfundrefnau caniatâd presennol heb lunio rheoliadau.

Byddai Opsiwn 1 yn rhwystro'r broses o gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru gan na ellir eu cyflwyno heb reoliadau cysylltiedig ar gyfer gweithdrefnau ymgynghori a chyhoeddusrwydd, cyfnodau a therfynu - pob un ohonynt heb eu nodi yn narpariaethau Deddf 2016. O ganlyniad, byddai'r trefniadau caniatâd presennol ar gyfer adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn aros yn ddigyfnewid. Byddai'n ofynnol i berchnogion sy'n ymgymryd â rhaglenni atgyweirio neu newid i nifer o asedau hanesyddol wneud cais am ganiatâd unigol lluosog.

Opsiwn 2 - Gwneud rheoliadau sy'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru wrth benderfynu ar yr ymgynghoriad a'r cyhoeddusrwydd, y cyfnodau a'r gweithdrefnau terfynu sy'n ofynnol ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth.

O dan opsiwn 2, byddai'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol gynnal ymgynghoriad a darparu cyhoeddusrwydd cyn gwneud neu amrywio cytundeb partneriaeth dreftadaeth, heb nodi sut y dylid gwneud hynny. Byddai hyn yn rhoi rhwydd hynt iddynt fabwysiadu'r trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd mwyaf priodol ar gyfer

³ Memorandwm Esboniadol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol 1 Mai 2015: [Microsoft Word - Historic Environment \(Wales\) Bill - Explanatory Memorandum \(incorporating RIA and EN\) - ENG \(senedd.wales\)](#)

cytundeb partneriaeth dreftadaeth ar ôl ystyried ei natur a'i gynnwys, ei ehangder a'r rhai a allai fod â diddordeb yn y cytundeb. Felly, gallai'r trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd amrywio ym mhob cytundeb partneriaeth dreftadaeth.

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gytundeb partneriaeth dreftadaeth bennu cyfnodau, ond byddai'n caniatáu i bartïon y cytundeb gytuno ar gyfnodau a'u hamrywio heb gyfyngiadau.

Yn yr un modd, byddai'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod cynllunio lleol, ond ni fyddent yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn. Ni fyddai'r rheoliadau chwaith yn rhoi cyfle i berchennog gyflwyno sylwadau i berson annibynnol ar benderfyniad i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth.

Opsiwn 3 - Gwneud rheoliadau sy'n gosod gofynion rhagnodol ar awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru ar gyfer yr ymgynghoriad a'r cyhoeddusrwydd, y cyfnodau a'r gweithdrefnau terfynu sy'n ofynnol ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth.

Byddai'r rheoliadau a ragwelir dan opsiwn 3 yn rhoi gofynion rhagnodol ar waith ar gyfer ymgynghori a chyhoeddusrwydd, gan gynnwys hysbysiad mewn papur newydd, arwyddion ar y safle, cyfarfod cyhoeddus a sicrhau bod cytundeb partneriaeth dreftadaeth ar gael i graffu arno mewn lleoliad canolog yn yr ardal lle bydd y cytundeb yn cael y brif effaith.

Hefyd, byddai'r rheoliadau'n pennu cyfnod y cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Byddai pob cytundeb yn para 15 mlynedd, ac ni fyddai'r partïon i'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn gallu adnewyddu neu amrywio hyn.

Yn yr un modd, byddai rheoliadau opsiwn 3 yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cael ei derfynu drwy orchymyn. Byddai'r rhain yn seiliedig ar y darpariaethau presennol a nodir yn Neddf 1979 a Deddf 1990 yn ymwneud â dirymiadau caniatâd a wrthwynebir. Pe na bai Gweinidogion Cymru yn defnyddio gorchymyn terfynu, byddai angen iddynt ei gadarnhau.

Os oes gwrthwynebiad i gynnig i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi cyfle i bartïon sy'n cael eu heffeithio gyflwyno sylwadau - gan gynnwys, fel sy'n briodol, y perchennog, yr awdurdod cynllunio lleol a phartïon eraill â diddordeb; gellid gwneud hyn mewn ymchwiliad lleol neu mewn gwrandawriad gerbron unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru.

Opsiwn 4 - Cyfuno elfennau o opsiynau 2 a 3 i wneud rheoliadau a fyddai'n pennu gofynion sylfaenol ar gyfer ymgynghori a chyhoeddusrwydd, yn caniatáu hyblygrwydd o safbwynt cyfnodau cytundeb partneriaeth dreftadaeth, ac yn nodi gweithdrefnau clir ar gyfer

terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn Gweinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio lleol.

O dan opsiwn 4, byddai'r rheoliadau'n nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer ymgynghori a chyhoedduswydd. Ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth adeilad rhestredig, byddai'r gofynion canlynol yn berthnasol am gyfnod penodol:

- darparu copi o'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth i'w archwilio mewn man cyhoeddus, fel llyfrgell leol neu swyddfa'r cyngor;
- arddangos hysbysiad ar wefan yr awdurdod cynllunio lleol;
- arddangos hysbysiad ar y safle, neu gerllaw'r safle; a
- chyhoeddi manylion am sut i gyflwyno sylwadau.

Yn achos cytundeb partneriaeth dreftadaeth heneb gofrestredig, byddai angen cyhoeddi'r canlynol ar ffurf electronig am gyfnod penodedig:

- cyfeiriad neu leoliad yr heneb gofrestredig;
- crynodeb o'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth (a darparu copi llawn ar gais); a
- gwybodaeth am sut i gyflwyno sylwadau.

Hefyd, byddai'r ddau reoliad yn ei gwneud yn ofynnol hysbysu'r rhai sydd â diddordeb yn y CPD. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru yn credu y byddai cyhoedduswydd ychwanegol yn fanteisiol, gallent ystyried hyn ar sail achosion unigol.

Dan yr opsiwn hwn, bydd yr awdurdod cydsynio a'r perchennog yn cytuno ar dymor y cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Bydd canllawiau cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cynnwys gwybodaeth am beth i'w ystyried wrth benderfynu ar gyfnod y cytundeb - mewn rhai achosion, gallai 5 mlynedd fod yn briodol, ac mewn achosion eraill, gallai 20 mlynedd fod yn gyfnod addas. Bydd y cytundeb yn cynnwys cyfnodau adolygu penodol.

Oherwydd yr holl waith ac amser sydd eu hangen i sefydlu cytundeb partneriaeth dreftadaeth a'r adnoddau posibl sy'n cael eu hymrwymo i gytundeb, credir ei bod yn briodol rhoi gweithdrefnau penodol ar waith i derfynu cytundeb drwy orchymyn. Byddai'r dull sy'n cael ei fabwysiadu ar gyfer opsiwn 3 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr opsiwn hwn hefyd. Eto, byddai'r darpariaethau ar gyfer dirymiadau caniatâd a wrthwynebir yn Neddf 1979 a Deddf 1990 yn darparu'r sylfaen ar gyfer y rheoliadau i derfynu cytundebau partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn. Pe na bai gorchymyn terfynu yn cael ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru, byddai angen iddynt ei gadarnhau.

Os oes gwrthwynebiad i gynnig i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi cyfle i bartïon sy'n cael eu heffeithio gyflwyno sylwadau - gan gynnwys, fel sy'n briodol, y

perchennog, yr awdurdod cynllunio lleol a phartïon eraill â diddordeb; gellid gwneud hyn mewn ymchwiliad lleol neu mewn gwrandawriad gerbron unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru.

Efallai y bydd rhywun sydd â diddordeb mewn adeilad yr effeithir arno gan orchymyn terfynu a wneir gan awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru yn gallu hawlio iawndal os yw'r gorchymyn yn achosi i'r gwaith fod yn ofer neu fel arall yn achosi colled neu ddifrod.

7. Costau a manteision

Costau

Opsiwn 1

Gan fod yr opsiwn hwn yn parhau â'r cyfundrefnau caniatâd presennol, ni fydd yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol. Ar hyn o bryd, ni chodir unrhyw ffioedd i wneud cais am ganiatâd heneb gofrestredig neu ganiatâd adeilad rhestredig. Fodd bynnag, yn ddiethriad mae perchnogion yn ysgwyddo costau wrth wneud cais. Oni bai bod y gwaith arfaethedig yn syml iawn ei natur, mae angen paratoi lluniadau a chynlluniau, cwblhau asesiadau effaith ac asesiadau eraill a datblygu cynlluniau gwaith. Yn aml, mae angen cyflogi penseiri, syrfewyr, archaeolegwyr neu weithwyr proffesiynol eraill i helpu i baratoi ceisiadau am ganiatâd. Mae'n amhosibl amcangyfrif yr amser sydd ei angen i baratoi cais a'r costau i berchnogion gan y byddant yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar raddfa a chymhlethdod y gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y caniatâd unigol. Fodd bynnag, mae cyfrifiad y Canal and River Trust yn 2014 yn amcangyfrif bod cais nodweddiadol am ganiatâd adeilad rhestredig yn costio £1,500 i'r sefydliad.⁴ Mae'r gost hon yn codi i tua £1,650 yn 2020 gan ganiatáu ar gyfer chwyddiant.

Gellir amcangyfrif yr amser a gymerir a'r costau a ysgwyddir gan awdurdodau wrth brosesu ceisiadau yn fwy hyderus. Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, roedd 86% o geisiadau am ganiatâd yn ymwneud â henebion cofrestredig wedi'u penderfynu gan Cadw o fewn 13 wythnos. Cyfrifwyd bod prosesu ceisiadau o'r fath yn costio £305 yr un i Cadw (yn seiliedig ar lefelau cyflog ar 1 Ebrill 2020), ac eithrio unrhyw gostau teithio angenrheidiol.

Yn gyffredinol, mae awdurdodau cynllunio lleol Cymru yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig o fewn 12 wythnos i'w cyflwyno. Yn ôl gwybodaeth sy'n cael ei darparu gan awdurdodau cynllunio lleol, mae costau prosesu cais am ganiatâd ar gyfer adeilad rhestredig yn amrywio gan ddibynnu ar raddfa a chymhlethdod y cais a'r amser sydd ei

⁴ https://historicengland.org.uk/images-books/publications/err-act-case-studies/enterprise_and_regulatory_reform_act_case_studies/

angen ar swyddogion i wneud y gwaith. Mae'n gallu amrywio o £250 i dros £1,500 (gan gynnwys costau cyhoeddusrwydd a chostau teithio).

Fodd bynnag, ni fydd y cyfle i wneud arbedion trwy ddileu ceisiadau am ganiatâd lluosog, ac ailadroddus yn aml, yn cael ei sicrhau o dan opsiwn 1. Bydd y broses o reoli'r henebion cofrestredig a'r adeiladau rhestredig o dan ofal Glandŵr Cymru (y Canal and River Trust yng Nghymru) yn darparu gwybodaeth am fanteision posibl cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn y cyswllt hwn.

Fel rhan o ranbarth Gogledd Cymru a'r Gororau (Cymru), mae Glandŵr Cymru yn gyfrifol am 91 o adeiladau rhestredig ac un heneb gofrestrredig; fodd bynnag, yr heneb gofrestrredig yw Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte sy'n ymestyn dros 16.5 cilometr o gefn gwlad o'r ffin â Lloegr i Langollen a thu hwnt. Yn ranbarth De Cymru a Hafren (Cymru), mae Glandŵr Cymru yn gyfrifol am 132 o adeiladau rhestredig a dwy heneb gofrestrredig.⁵ Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, yn y ddau ranbarth mae'r sefydliad yn rheoli nifer sylweddol o asedau hanesyddol dynodedig sydd â chysylltiad uniongyrchol â gweithredu ei ddyfrffyrdd, megis lociau, dyfrbontydd, pontydd camlesi, a dociau. Yn y naill ranbarth a'r llall, mae oedran ac adeiladwaith yr amrywiol asedau yn debyg yn aml, ac mae ganddynt ofynion cadwraeth tebyg i raddau helaeth.

Er mwyn cefnogi ei raglenni cadwraeth a chynnal a chadw, mae Glandŵr Cymru yn sicrhau caniatâd fel mater o drefn cyn gwneud gwaith ar ei asedau dynodedig. Hefyd, mae'n cael cliriad gan yr awdurdodau perthnasol ar gyfer gwaith sy'n gallu mynd rhagddo heb ganiatâd ffurfiol. Mae Tabl 1 yn nodi sawl caniatâd a chliriad a sicrhawyd yn y ddau ranbarth rhwng 2012 a 2020. Er nad oes gwybodaeth am achosion unigol o sicrhau caniatâd a chliriad ar gael, mae'r broses o ymgysylltu â Glandŵr Cymru wrth ddatblygu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau drafft yn dangos y byddai cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn helpu'r sefydliad i leihau lefelau'r caniatâd a'r cliriad sydd eu hangen i reoli'r dyfrffyrdd. Byddai hyn yn berthnasol iawn i'r cliriadau, y gellid eu cynnwys mewn categorïau gwaith y cytunwyd arnynt mewn cytundebau partneriaeth dreftadaeth nad oedd angen caniatâd ar eu cyfer.

	Gogledd Cymru a'r Gororau (Cymru)				De Cymru a Hafren (Cymru)			
	Caniatâd		Cliriad		Caniatâd		Cliriad	
Blwyddyn	HG	ARh	HG	ARh	HG	ARh	HG	ARh
2012-13	0	1	11	9	0	0	0	9
2013-14	3	2	3	5	0	0	0	15
2014-15	1	0	3	3	0	0	0	2
2015-16	3	0	0	1	0	2	0	7

⁵ <https://canalrivertrust.org.uk/refresh/media/thumbnail/34261-heritage-report-2017.pdf#:~:text=In%202016%2F17%20our%20heritage%20work%20at%20the%20Canal,of%20protecti%20and%20conserving%20the%20waterways%E2%80%99%20heritage.%20Foreword>

2016-17	1	0	2	5	1	1	0	7
2017-18	2	1	6	4	1	0	0	5
2018-19	1	1	9	4	0	0	0	6
2019-20	3	0	6	2	0	0	0	2
Cyfanswm	14	5	40	33	2	3	0	53

Tabl 1: Glandŵr Cymru: Caniatâd a chliriadau a sicrhawyd ar gyfer gwaith ar asedau hanesyddol dynodedig yng Nghymru, 2012–2020⁶
HG = Heneb gofrestredig ARh = Adeilad rhestredig

Yn yr un modd, ni fydd effeithlonrwydd a manteision rheoli'r ased hanesyddol yn yr hirdymor drwy'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth ar gael dan opsiwn 1.

Dewisiadau 2, 3 a 4

Bydd perchnogion ac awdurdodau sy'n rhoi caniatâd yn ysgwyddo costau wrth baratoi cytundebau partneriaeth dreftadaeth sy'n deillio o ofynion darpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Dadansoddiwyd y costau hyn yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, ac ni fydd yr ymarferiad yn cael ei ailadrodd yma. Dim ond costau sy'n deillio'n uniongyrchol o'r broses o roi'r Rheoliadau ar waith fydd yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad effaith canlynol.

Opsiwn 2

Cyhoeddusrwydd / ymgynghori

Ni fyddai'r Rheoliadau'n gosod unrhyw gostau uniongyrchol ychwanegol ar berchnogion gan mai'r awdurdod cydsynio fydd yn gyfrifol am y trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd.

Er bod ymgynghori a chyhoeddusrwydd yn ofynion statudol, ym mhob achos byddai'r holl drefniadau'n cael eu rhoi ar waith yn ôl disgrisiwn yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd. Gallai hyn amrywio o roi hysbysiad ar y wefan, na fyddai'n costio llawer o gwbl, i gynnal cyfarfod cyhoeddus yn yr ardal neu roi hysbysiad yn y papur newydd. Y brif her fyddai sicrhau rhywfaint o gysondeb o ran sut mae awdurdodau cynllunio lleol unigol yn ymdrin â threfniadau - gellid cynnwys cyngor ar yr hyn a fyddai'n briodol mewn canllawiau, ond ni fyddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ddilyn y canllawiau. Mae'n debyg mai'r gost fydd y ffactor sy'n penderfynu yn hytrach na phrofi cynnwys y cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Nid oes modd nodi cost wirioneddol ar gyfer yr opsiwn hwn.

Cyfnodau

Mae'n bosibl y byddai'r gallu i bennu cyfnod y cytundeb partneriaeth dreftadaeth heb unrhyw gyfyngiadau yn fanteisiol i'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd a'r perchennog oherwydd y ffaith y gallai'r cyfnod fod yn wahanol ar gyfer pob cytundeb gan ddibynnu ar yr asedau sydd wedi'u cynnwys a'r gwaith y cytunwyd arno. Yn gyffredinol, po hiraf yw cyfnod y cytundeb partneriaeth

⁶Gwybodaeth gan Glandŵr Cymru.

dreftadaeth, y mwyaf yw'r arbedion i'r partiion dan sylw. Fodd bynnag, os yw'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn rhy hir, mae'n bosibl y bydd yn cynnwys egwyddorion a methodoleg cadwraeth hen ffasiwn sy'n cael effaith andwyol ar yr asedau hanesyddol y mae'r cytundeb yn ymwneud â nhw. Bydd peryglon tebyg yn codi os yw cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cael ei ymestyn y tu hwnt i'w gyfnod heb roi ystyriaeth briodol i'r caniatâd a roddwyd neu briodoldeb y gwaith.

Terfynu

Mae'r Deddfau sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth gynnwys darpariaeth ar gyfer terfynu cytundeb neu unrhyw ran ohono drwy orchymyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol - er enghraifft, methiant llwyr o safbwynt y berthynas rhwng perchennog ac awdurdod sy'n rhoi caniatâd - y bydd gorchymyn i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth neu gyfran ohono yn cael ei ddefnyddio. Byddai Opsiwn 2 yn galluogi awdurdodau sy'n rhoi caniatâd i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth neu ei ddarpariaethau drwy orchymyn, ond ni fyddai'n diffinio'r gweithdrefnau ar gyfer arfer y pwerau hynny mewn rheoliadau. Ni fyddai perchnogion yn gallu apelio yn erbyn gorchymynion na chyflwyno hawliad am iawndal. Heb reoliadau manwl o'r fath, gallai perchnogion fod dan anfantais ariannol.

Opsiwn 3

Ymgynghori a chyhoeddusrwydd

Ni fyddai'r rheoliadau'n rhoi unrhyw gostau ychwanegol ar berchnogion.

Byddai'r awdurdodau sy'n rhoi caniatâd, naill ai Gweinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol, yn gyfrifol am gostau'r gofynion rhagnodol ar gyfer ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Mae enghreifftiau o'r costau perthnasol i'w gweld isod:

- Paratoi'r hysbysiad ar y safle, gwefan, rhoi dogfennau'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth mewn lleoliad canolog a hysbysu sefydliadau / pobl sydd â diddordeb yn y cytundeb: ½ diwrnod o amser swyddog.
- Gosod yr hysbysiad ar y safle: ½ diwrnod o amser swyddog am resymau teithio, yn enwedig os yw'r CPD yn cwmpasu mwy nag un ased hanesyddol.

Amcangyfrifir y byddai'r gost o baratoi a gosod yr hysbysiadau oddeutu £200, ar sail costau deunyddiau, amser a milltiroedd.

Trefnu cyfarfod cyhoeddus: ar sail cyhoeddusrwydd ar gyfer y digwyddiad, paratoi'r dogfennau a sicrhau presenoldeb yn y digwyddiad, mae trefnu cyfarfod cyhoeddus yn debygol o gostio tua £500. Hefyd, mae'n bosibl y bydd

angen ystyried llogi ystafell os nad oes modd defnyddio lleoliad addas gan yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd.

Hysbysiad mewn papur newydd lleol: amcangyfrifir bod costau hysbysebu yn gallu amrywio o £50 i £200 fesul hysbyseb gan ddibynnu ar yr hysbyseb a'r papur newydd lleol.

Mae angen ystyried a yw'r gofynion hyn yn gymesur â'r diddordeb posibl mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Mae'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn debygol o gynnwys caniatâd ar gyfer mân waith ailadroddus, felly rhaid ystyried faint o bobl fyddai â diddordeb yn yr hysbysebion papur newydd neu mewn mynychu'r cyfarfodydd cyhoeddus. Efallai bod dulliau gwell o dargedu'r bobl a'r sefydliadau sydd am wneud sylwadau adeiladol ar gytundebau partneriaeth dreftadaeth.

Cyfnodau

Byddai'r rheoliadau'n pennu cyfnod y cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Byddai pob cytundeb, waeth beth fo'i gynnwys neu ei briodoldeb, yn para 15 mlynedd. Mae'n bosibl y bydd cost yn gysylltiedig â hyn i'r perchennog a'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd. Mewn rhai amgylchiadau, gallai cytundeb partneriaeth dreftadaeth hirach fod yn fwy priodol - ac mewn achosion eraill gallai 15 mlynedd fod yn rhy hir a chael effaith andwyol ar yr asedau hanesyddol.

Terfynu

Byddai'r rheoliadau'n ymwneud â therfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn yn seiliedig ar ddarpariaethau Deddfau 1979 a 1990 ar gyfer dirymiadau caniatâd a wrthwynebir. Pe na bai gorchymyn terfynu yn cael ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru, byddai angen iddynt ei gadarnhau.

Byddai'n rhaid i awdurdod sy'n rhoi caniatâd gyflwyno hysbysiad o'r cynnig i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth i'r perchennog a phartion eraill sy'n cael eu heffeithio. Os yw gwrthwynebiadau'n codi, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle i bartion sy'n cael eu heffeithio - gan gynnwys, fel y bo'n briodol, y perchennog, yr awdurdod cynllunio lleol a phartion eraill â diddordeb - wneud sylwadau, naill ai mewn ymchwiliad lleol neu mewn gwrandawriad gerbron unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru.

Amcangyfrifir y byddai'r costau i Weinidogion Cymru sy'n deillio o dderbyn sylwadau fel a ganlyn:

- ymchwiliad cyhoeddus - £15,000; neu
- wrandawriad - £5,000.

Amcangyfrifir mai £1,742 fyddai'r gost i awdurdod cynllunio lleol gyflwyno sylwadau - yn seiliedig ar gost gymharol cymryd rhan yn y broses apeliadau cynllunio.⁷

⁷ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/memorandwm-esboniadol-y-ddeddf-gynllunio-cymru-2015.pdf> paragraff 7.420

Amcangyfrifir y byddai perchennog yn ysgwyddo'r costau canlynol wrth gyflwyno sylwadau:

- mynychu ymchwiliad cyhoeddus — £4,800; neu
- gymryd rhan mewn gwrandawriad — £1,200.⁸

Mewn rhai amgylchiadau, gall terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth olygu bod rhaid i'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd dalu iawndal. Nid oes modd amcangyfrif costau iawndal gan y byddant yn amrywio o achos i achos. Os bydd unrhyw anghydfod ynghylch yr iawndal a ddyfernir, gellir cyfeirio materion sy'n ymwneud â dibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir i'r Tribiwnlys Uwch i'w benderfynu.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd terfynu drwy orchymyn yn digwydd; amcangyfrifir mai dim ond unwaith mewn cyfnod o 10 mlynedd y bydd yn digwydd, neu'n fwy anaml na hynny hyd yn oed. Nid ydym yn ymwybodol, er enghraifft, o unrhyw achos o ddirymiad caniatâd a wrthwynebir ar gyfer adeilad rhestredig o dan y pwerau yn adran 26 o Ddeddf 1990. Byddai'r cytundeb ei hun yn cynnwys darpariaeth ar gyfer terfynu drwy gytundeb, felly ni fydd proses terfynu drwy orchymyn yn cael ei hystyried oni bai bod pob opsiwn arall wedi methu. Dim ond mewn rhai amgylchiadau y caniateir ceisiadau am iawndal ac maen nhw'n debygol o fod hyd yn oed yn brinnach na therfyniadau drwy orchymyn.

Opsiwn 4

Ymgynghori a chyhoeddusrwydd

Byddai'r gofynion sylfaenol ar gyfer ymgynghori a chyhoeddusrwydd yn cael eu hegluro mewn rheoliadau.

Ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth adeiladau rhestredig, byddai hyn yn darparu cysondeb ar draws awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, ond hefyd yn caniatáu i'r awdurdodau hynny ddarparu cyhoeddusrwydd ychwanegol lle bo hynny'n briodol.

Dyma fyddai'r cyhoeddusrwydd gofynnol ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth adeilad rhestredig:

- Paratoi'r hysbysiad ar y safle, gwefan, rhoi dogfennau'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth mewn lleoliad canolog a hysbysu sefydliadau / pobl sydd â diddordeb yn y cytundeb: ½ diwrnod o amser swyddog.
- Gosod yr hysbysiad ar y safle: ½ diwrnod o amser swyddog am resymau teithio, yn enwedig os yw'r CPD yn cwmpasu mwy nag un ased hanesyddol.

⁸ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/memorandwm-esboniadol-y-ddeddf-gynllunio-cymru-2015.pdf> paragraff 7.425

Amcangyfrifir y byddai'r gost o baratoi a gosod yr hysbysiadau tua £200, ar sail costau deunyddiau, amser a milltiroedd.

Byddai'r gofynion cyhoeddusrwydd ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth heneb gofrestredig yn cynnwys paratoi hysbysiadau a'u cyhoeddi'n electronig — ½ diwrnod o amser swyddog ar gost o tua £100. Mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â phostio copïau o'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth drafft os daw ceisiadau i law gan aelodau'r cyhoedd, ond, gan nad yw ceisiadau o'r fath byth yn debygol o fod yn niferus, ni fydd y costau hyn yn uchel.

Gallai'r awdurdod cydsynio ddewis cynnal ymgynghoriad neu gyhoeddusrwydd ychwanegol yn dibynnu ar fudd y cyhoedd yn y CPD. Ond byddai costau unrhyw gyhoeddusrwydd ychwanegol yn gymesur â natur y cytundeb a'r eiddo dan sylw.

Cyfnodau

O dan yr opsiwn hwn, byddai cyfnod y cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cael ei drafod gan yr awdurdod sy'n rhoi'r caniatâd a'r perchennog, felly byddent yn gallu penderfynu ar y cyfnod mwyaf priodol ar gyfer yr asedau a'r amgylchiadau penodol.

Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Terfynu

Gan fod y mecanweithiau ar gyfer terfynu a nodir yn opsiwn 4 yn adlewyrchu'r rhai yn opsiwn 3, bydd y costau a amlinellir ar gyfer opsiwn 3 yn berthnasol yn y cyswllt hwn hefyd.

Manteision

Opsiwn 1

Gan na fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw newid i'r systemau caniatâd presennol ar gyfer henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, ni fyddai'n cynnig unrhyw fanteision.

Opsiwn 2

Byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno darpariaethau'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 heb lawer o reoliadau, ac yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i berchnogion ac awdurdodau sy'n rhoi caniatâd wrth negodi a rheoli cytundebau.

Byddai cynnwys caniatâd ar gyfer gwaith y cytunwyd arno mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn debygol o ddileu'r angen am geisiadau unigol mynych ar gyfer caniatâd dros oes y cytundeb, gan sicrhau arbedion amser ac

adnoddau i'r perchennog a'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd. Byddai hyn yn berthnasol i opsiynau 3 a 4 hefyd.

Byddai'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd a'r perchennog yn gallu cytuno ar y dull mwyaf priodol a chost-effeithiol o fodloni'r gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Yn yr un modd, byddai'r partïon i'r cytundeb yn gallu penderfynu cyfnod y cytundeb partneriaeth dreftadaeth a'i ymestyn neu ei leihau.

Nid oes unrhyw fanteision i ddarparu hyblygrwydd o safbwynt terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i gytundeb partneriaeth dreftadaeth nodi sut mae'r partïon yn gallu ei derfynu drwy gytundeb; os oes angen terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn, mae rhywbeth wedi mynd o'i le ac mae'r berthynas rhwng y partïon wedi methu mewn ffordd na ellir ei hadfer. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai gweithdrefnau annibynnol sydd wedi'u diffinio'n dda ar gyfer terfynu'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn yn bwysig iawn er mwyn diogelu hawliau a buddiannau'r holl bartïon perthnasol.

Er y byddai'r hyblygrwydd sy'n cael ei roi i bartïon i gytundeb partneriaeth dreftadaeth dan opsiwn 2 yn ymddangos ei fod yn cynnig llawer o fanteision, mae'n debygol o arwain at amrywiadau eang yng nghwmpas a chyfnodau cytundebau, hyd yn oed os oes canllawiau clir a gofalus yn cael eu drafftio. Gallai anghysondebau eang a sylweddol rhwng cytundebau partneriaeth dreftadaeth arwain at amheuan am degwch sylfaenol y cytundebau.

Opsiwn 3

Ymgynghori / cyhoeddusrwydd

Gan y byddai pob cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cael yr un cyhoeddusrwydd, byddai partïon â diddordeb yn gwybod ble i chwilio am wybodaeth am gytundeb arfaethedig. Byddai hysbysebion yn y papur newydd lleol yn tynnu sylw'r gymuned at y cytundeb partneriaeth dreftadaeth arfaethedig. Byddai'r hysbysebion hyn yn cael eu hategu gan hysbysiadau ar y safle ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr achlysurol, a hysbysiadau ar wefannau. Byddai'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd yn cysylltu'n uniongyrchol â phobl sydd â diddordeb yn yr asedau hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gan y cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Byddai dogfennau drafft o'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth ar gael mewn lleoliad canolog er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl sy'n dymuno craffu'n fanwl ar y cytundeb.

Byddai gan y gymuned leol gyfle i gyflwyno sylwadau ar y cytundeb partneriaeth dreftadaeth mewn cyfarfod cyhoeddus, gan gynnwys cyfle i gwestiynu priodoldeb y gwaith arfaethedig yn y cyfarfod hwnnw.

Cyfnodau

Mantais pennu cyfnodau sydd yn union yr un fath ar gyfer pob cytundeb partneriaeth dreftadaeth, waeth beth fo'i gynnwys, yw'r ffaith eu bod yn darparu

tryloywder ac eglurder. Yn ogystal, mae'n lleihau'r angen i'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd a'r perchennog negodi a chytuno ar hyd y cytundeb.

Terfynu

Os oes angen terfynu'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth, bydd y ffaith bod y gweithdrefnau wedi'u nodi mewn rheoliadau'n darparu eglurder ac yn sicrhau'r perchennog a'r awdurdod y bydd pob achos yn cael ei ystyried yn deg ac yn annibynnol. Byddai'r gweithdrefnau'n seiliedig ar y darpariaethau presennol a nodir yn Neddf 1979 a Deddf 1990 yn ymwneud â dirymiadau caniatâd a wrthwynebir. Pe na bai gorchymyn terfynu yn cael ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru, byddai angen iddynt ei gadarnhau.

Os oes gwrthwynebiad i gynnig i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi cyfle i bartïon sy'n cael eu heffeithio gyflwyno sylwadau — gan gynnwys, fel sy'n briodol, y perchennog, yr awdurdod cynllunio lleol a phartïon eraill â diddordeb; gellid gwneud hyn mewn ymchwiliad lleol neu mewn gwrandawriad gerbron unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru.

Mae hyn yn darparu proses dryloyw a theg i bob ochr pe bai rhywbeth yn mynd o'i le. Hefyd, mae'n golygu bod modd talu iawndal i'r perchennog os yw amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny. Mae'r rheoliadau'n egluro'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn terfynu'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy orchymyn, ond nid ydynt yn disodli'r gofyniad yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer darpariaeth ar gyfer terfynu'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy gytundeb.

Byddai Opsiwn 3 yn sicrhau unffurfiaeth o safbwynt elfennau sylfaenol pob cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Er y byddai hyn yn sicrhau cysondeb ac yn datrys rhai o'r problemau a ddeilliodd o opsiwn 2, byddai'n dileu llawer o'r hyblygrwydd a fyddai'n caniatáu i gytundebau gael eu teilwra yn unol â natur ac amgylchiadau penodol yr asedau hanesyddol sy'n cael eu rheoli. Mae hyn yn berthnasol iawn i gyfnod y cytundeb, a fyddai, yn ddelfrydol, yn destun negodi manwl rhwng y perchennog a'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd, gan ystyried materion cadwraeth a rheoli.

Opsiwn 4

Cyhoeddusrwydd / ymgynghori

Byddai rheoliadau'n nodi'r cyhoeddusrwydd disgwylidig ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Byddai'r gofynion ychydig yn wahanol ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, ond yn y naill achos a'r llall byddai'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd yn gallu dewis darparu cyhoeddusrwydd ychwanegol os yw'n credu bod hynny'n fanteisiol. Mae hyn yn darparu'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cynigion a'r hyn sy'n gymesur â'r gwaith a gynigir.

Fel rhan o'r gofynion cyhoeddusrwydd ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth heneb gofrestrredig, byddai angen cyhoeddi fersiwn electronig o'r cytundeb a darparu copi o'r cytundeb drafft ar gais. Oherwydd y cyfyngiadau ar y caniatâd y gellir ei roi ar gyfer henebion cofrestredig, mae'r dull hwn o ymdrin

â chyhoedduswydd yn adlewyrchu'r ffaith fod y gwaith y cytunwyd arno mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth heneb gofrestredig yn debygol o gael effaith gymharol fach na fydd o ddiddordeb i lawer o bobl. Serch hynny, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r rhai sydd â diddordeb yn yr asedau hanesyddol perthnasol am y cytundeb arfaethedig.

Byddai'r rheoliadau ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth adeilad rhestredig yn cyflwyno casgliad o ofynion cyhoedduswydd ychydig yn ehangach. Byddai gosod hysbysiadau ar wefan yr awdurdod cynllunio lleol ac ar y safle neu gerllaw'r safle, yn ogystal â sicrhau bod y dogfennau ar gael yn yr ardal leol, yn hysbysu cymunedau lleol am y cytundeb partneriaeth dreftadaeth arfaethedig. Hefyd, byddai angen i'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd hysbysu'r rhai sydd â diddordeb yn y cytundeb partneriaeth dreftadaeth; gallent gynnwys cymdeithasau amwynder, grwpiau lleol neu unigolion a hoffai wybod am unrhyw gytundeb partneriaeth dreftadaeth yn yr ardal leol. Mae llawer o'r gwaith sy'n cael ei gynnwys yn y cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn debygol o fod yn waith ailadroddus, cymharol fach, felly byddai'r gofynion cyhoedduswydd hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn agored ac yn dryloyw a phragmatiaeth a bod yn ddarvoudus.

Cyfnodau

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd a'r perchennog yn gallu cytuno ar y cyfnod mwyaf priodol ar gyfer y cytundeb partneriaeth dreftadaeth seiliedig ar y gwaith arfaethedig, natur y safleoedd a pherchnogaeth. Gallai hyn amrywio o 5 i 20 mlynedd, ond byddem yn awgrymu bod 10 i 15 mlynedd yn gyfnod arferol. Byddai canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys yr hyn sydd angen ei ystyried wrth benderfynu ar gyfnodau.

Terfynu

Byddai'r manteision a amlinellir ar gyfer opsiwn 3 yn berthnasol i'r un graddau yn y cyswllt hwn. Byddai gweithdrefnau diffiniedig ar gyfer terfynu drwy orchymyn yn helpu perchnogion ac awdurdodau sy'n rhoi caniatâd i sicrhau bod proses deg a thryloyw yn cael ei dilyn pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le. Hefyd, byddai'r cytundeb yn cynnwys darpariaeth ar sut y gellid terfynu'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth drwy gytundeb.

Yr opsiwn a ffefrir

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Opsiwn 4 fel yr opsiwn a ffefrir gan ei fod yn cynnwys hyblygrwydd o fewn cytundebau gwirfoddol rhwng awdurdodau sy'n rhoi caniatâd a pherchnogion. Byddai'r gofynion ymgynghori a chyhoedduswydd yn gymesur â'r math o waith a fyddai'n cael ei gynnwys yn y cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Fodd bynnag, byddai'r trefniadau ar gyfer terfynu cytundeb drwy orchymyn yn rhagnodol er mwyn darparu diogelwch i'r perchennog.

8. Ymgynghori

Cafodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei gynnwys yn ymgynghoriad y cytundeb partneriaeth dreftadaeth fel y disgrifir ym mharagraff 5. Gofynnwyd cwestiwn penodol am yr asesiad ac roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol ag opsiwn 4 fel yr opsiwn a ffefrir gan ei fod yn rhoi hyblygrwydd o fewn y cytundeb yn ogystal â gofynion statudol cymesur.

9. Asesiad effaith integredig

Cyflwynwyd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Wrth ddatblygu'r Ddeddf hon, ymgysylltodd Cadw ag amrywiaeth o randdeiliaid yr amgylchedd hanesyddol sy'n debygol o fod â diddordeb yn y broses o gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth, neu sy'n debygol o gael eu heffeithio ganddynt.

Wrth baratoi ar gyfer ein hymgynghoriad ar Reoliadau cytundebau partneriaeth dreftadaeth, rydym wedi ehangu ein rhestr ddosbarthu er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid rheolaidd, y rhai sydd â diddordeb ehangach yn yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu hysbysu am yr ymgynghoriad. Anfonwyd yr ymgynghoriad drwy Wasanaeth Cyflenwi'r Llywodraeth gyda thros 1,100 o dderbynwyr. Roedd platfformau cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n ehangach at yr ymgynghoriad hefyd.

Mae Rheoliadau'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn weithdrefnol ac yn weinyddol o ran natur ac, o'r herwydd, ni fyddant yn cael llawer o effaith uniongyrchol ar yr asesiadau sy'n cael eu cwblhau.

Er hynny, bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn gwella'r broses o reoli asedau hanesyddol dynodedig Cymru yn gynaliadwy drwy greu cynlluniau rheoli hirdymor y cytunwyd arnynt gan awdurdodau sy'n rhoi caniatâd, perchnogion a phartïon eraill â diddordeb sy'n gweithio mewn partneriaeth wirfoddol. Bydd y cytundebau'n cefnogi rhaglenni gwaith integredig a chydlynol dros gyfnodau o flynyddoedd. Bydd y dull cyfannol, hirdymor o reoli asedau hanesyddol nid yn unig yn fanteisiol i'r asedau, ond bydd yn sicrhau arbedion ar gyfer y partïon perthnasol hefyd. Cafodd hyn ei gydnabod gan rai ymatebwyr, ond mynegwyd pryderon nad oes gan awdurdodau cynllunio lleol yr adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu cytundeb partneriaeth dreftadaeth a bod y costau gweinyddol yn cael eu tanamcangyfrif. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn cynnwys gofyniad ar gyfer ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltu â'r cyhoedd a dealltwriaeth leol o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar asedau hanesyddol yn yr ardal. Yn ôl gwaith ymchwil, mae pobl yn teimlo bod buddsoddi yn yr amgylchedd hanesyddol yn golygu bod eu hardal yn lle gwell i fyw ynddi, gan wella llesiant cymdeithasol. Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwnaed cais i newid y Rheoliadau fel nad oes angen i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu copi llawn o'r ddogfen mwyach i bob perchennog a meddiannydd. Cytunwyd y byddai'r dull hwn yn lleihau'r baich

gweinyddol arnynt ac mae'r Rheoliadau wedi'u newid i ddatgan mai dim ond eu hysbysu sydd ei angen.

Mae natur hirdymor y cytundebau'n rhoi cyfle i berchnogion ystyried newid yn yr hinsawdd ac ystyried camau gweithredu priodol ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol megis llifogydd. Hefyd, bydd y cytundebau'n cynnig cyfleoedd i ystyried defnydd wedi'i reoli'n ofalus o systemau ynni adnewyddadwy sy'n gallu cynnig arbedion ynni, carbon ac ariannol sylweddol.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi amlygu pwysigrwydd y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Mae rheoli ein hasedau hanesyddol dynodedig yn yr hirdymor yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol yn gallu parhau i werthfawrogi'r safleoedd hyn o bwysigrwydd cenedlaethol. Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn helpu unigolion a sefydliadau i wneud penderfyniadau priodol ar gyfer gwarchod yr asedau hanesyddol hynny yn yr hirdymor. Bydd y cytundebau'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant a threftadaeth yn uniongyrchol gan eu bod yn ymgorffori dull integredig a chyfannol o reoli asedau hanesyddol yn gynaliadwy. Yn ystod yr ymgynghoriad cawsom adborth adeiladol ar y defnydd o'r Gymraeg a sut y gellid defnyddio'r Rheoliadau a'r canllawiau i annog a chefnogi defnydd ohoni. Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn ac wedi diwygio'r canllawiau i dynnu sylw at hyn a sut y gall integreiddio enwau lleoedd Cymraeg mewn cytundebau partneriaeth treftadaeth wneud cyfraniad cadarnhaol i'r nod llesiant ar gyfer diwylliant a'r Gymraeg yn ogystal ag yn ehangach mewn cymunedau. Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn helpu unigolion a sefydliadau i wneud penderfyniadau priodol ar gyfer gwarchod yr asedau hanesyddol hynny yn yr hirdymor. Bydd y cytundebau'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant a threftadaeth yn uniongyrchol gan eu bod yn ymgorffori dull integredig a chyfannol o reoli asedau hanesyddol yn gynaliadwy.

Mae cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi'u datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Drwy wella'r broses o reoli a gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru, bydd y cytundebau'n cyfrannu at nodau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Yn fwy penodol, byddant yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y dangosydd cenedlaethol — 'Y ganran o asedau'r amgylchedd hanesyddol dynodedig sydd mewn cyflwr sefydlog a gwell', a gyflwynwyd i fesur cynnydd tuag at y nodau llesiant. Roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno y bydd cytundebau partneriaeth treftadaeth yn ffordd ddefnyddiol o fonitro'r dangosydd hwn.

Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth unigol yn cael eu monitro a'u hadolygu gan fod gofyniad cyfreithiol i wneud hynny. Bydd Cadw yn derbyn copi o bob cytundeb partneriaeth dreftadaeth, ac mewn llawer o achosion bydd Cadw yn un o bartneriaid y cytundeb. O ganlyniad, bydd Cadw mewn sefyllfa i adolygu'r canllawiau a'r rheoliadau a'u diwygio, os yw hynny'n briodol.

Yn ogystal, fel rhan o'r gwerthusiad parhaus o'r broses o gyflwyno Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, bydd adolygiadau'n cael eu cynnal i

fonitro nifer y cytundebau sydd ar waith ynghyd â'r manteision cadwraeth sydd wedi deillio o'r cytundebau.

10. Asesiad o'r Gystadleuaeth

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ✓ neu x
C1: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% yn y farchnad?	x
C2: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 20% yn y farchnad?	x
C3: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan y tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	x
C4: A fyddai'r costau rheoleiddio'n cael llawer mwy o effaith ar rai cwmnïau na'i gilydd?	x
C5: A yw'r broses reoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?	x
C6: A fyddai'r broses reoleiddio'n arwain at fwy o gostau sefydlu i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posibl, a'r rheini'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	x
C7: A fyddai'r broses reoleiddio'n arwain at fwy o gostau parhaus i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posibl, a'r rheini'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	x
C8: A yw hwn yn sector sy'n gweld newidiadau technolegol cyflym?	x
C9: A fyddai'r broses reoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch?	x

Ni fydd y Rheoliadau'n effeithio ar fusnes, nac elusennau a/neu'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth. Nid yw'r hidlydd cystadleuaeth wedi'i gymhwyso.

Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd neu gyflenwyr sy'n bodoli eisoes.

Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau gael unrhyw effaith negyddol ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

11. Adolygiad ôl-weithredu

Cytundebau hirdymor sy'n debygol o bara rhwng 10 a 15 mlynedd yw cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Ni fydd adolygiadau ffurfiol yn cael eu cynnal nes bod gennym nifer sylweddol o gytundebau ar waith i wneud unrhyw adolygiad yn ystyrllon. Gall hyn gymryd hyd at bum mlynedd o'r adeg y daw'r darpariaethau i rym. Fodd bynnag, gan fod y cytundebau hyn yn gysyniad newydd yng Nghymru, byddwn yn ceisio adborth yn barhaus ar eu heffeithiolrwydd ac yn ystyried unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen i'r Rheoliadau i'w gwella wrth iddynt gael eu datblygu.

Gan y bydd Gweinidogion Cymru yn rhan o rai o'r cytundebau, mae hyn yn gyfle i goladu gwybodaeth yn hawdd am sut y maent yn gweithio.